Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y dilyniant: monitro gan Estyn

**Ysgol Gynradd Heol-Y-Celyn**
**Holly Street**
**Rhydyfelin**
**Pontypridd**
**RhCT**
**CF37 5DB**

**Dyddiad yr ymweliad: Tachwedd 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Terwyn Tomos | Arolygydd Cofnodol |
| Kevin Davies | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad y monitro

Bernir bod Ysgol Gynradd Heol-y-Celyn wedi gwneud cynnydd annigonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym Mehefin 2014.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn cynyddu lefel y gweithgarwch dilynol.

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi o'r farn fod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu, a fydd yn dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd arolygwyr Estyn yn ailymweld â'r ysgol ymhen rhyw 12 mis i arolygu cynnydd yn erbyn yr argymhellion.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Gwella medrau ysgrifennu'r disgyblion yn y ddwy iaith ar draws yr ysgol

Cynnydd cyfyngedig o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae gallu llawer o ddisgyblion i ysgrifennu darnau estynedig mewn sesiynau llythrennedd yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm, yn gyfyngedig. Nid yw athrawon yn gosod tasgau sy'n ddigon penodol ac mae'r gorddefnydd o daflenni gwaith mewn llawer o wersi yn cyfyngu ar faint y mae'r disgyblion hyn yn ei ysgrifennu. Nid yw llawer o ddisgyblion yn defnyddio atalnodi yn gyson yn eu gwaith, ac mae eu sillafu yn aml yn anghywir. Fodd bynnag, pan fyddant yn cael cyfle, mae disgyblion mwy abl yn dechrau ysgrifennu'n estynedig ac yn defnyddio atalnodi a sillafu sylfaenol yn gywir.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau ysgrifennu'n estynedig yn Gymraeg a Saesneg mewn ystod addas o *genres* gan gynnwys cofiannau, deialogau, dyddiaduron, adroddiadau papur newydd a barddoniaeth. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r cyfleoedd o hyd i ddisgyblion ddatblygu medrau ysgrifennu mwy creadigol. Mae pob un o'r athrawon wedi cael hyfforddiant addas mewn datblygu ysgrifennu ar draws y cyfnod allweddol. Mae hyn yn cynnwys addysgu mewn camau bach, a nod hyn yw datblygu gallu disgyblion i ysgrifennu'n estynedig mewn ystod o *genres*. Fodd bynnag, nid yw'r cyswllt rhwng y tasgau bach hyn a'r darnau estynedig terfynol o ysgrifennu bob amser yn ddigonol i godi safonau. Nid yw cyfanswm yr amser addysgu sy'n cael ei dreulio ar y tasgau hyn yn gyson, ac mewn rhai dosbarthiadau, mae hefyd yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig ym meysydd eraill y cwricwlwm.

Ar draws y cyfnod allweddol, nid yw llawer o ddisgyblion yn defnyddio atalnodi yn gyson dda ac maent yn aml yn camsillafu geiriau cyffredin. Pan gânt y cyfle, gall disgyblion mwy abl ysgrifennu'n estynedig i safon briodol gan ddefnyddio sillafu ac atalnodi cywir. Fodd bynnag, nid yw tasgau ysgrifennu yn y ddwy iaith bob amser yn herio disgyblion yn ddigonol.

Yn gyffredinol, mae ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad disgyblion yn amrywio ar draws yr ysgol.  Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn ffurfio eu llythrennau'n gywir ac yn cyflwyno'u gwaith yn briodol.  Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu llawysgrifen sownd, ddarllenadwy a gallant gyflwyno'u gwaith yn ddestlus ac mewn modd trefnus.

**Argymhelliad 2:  Codi safonau yn y Gymraeg a Chymraeg ail iaith ar draws yr ysgol**

Cynnydd boddhaol o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad.

Mae safonau mewn Cymraeg ail iaith yn gwella.  Mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu Cymraeg ac yn gwneud cynnydd da yn eu defnydd a'u dealltwriaeth o'r iaith Gymraeg.  Maent yn siarad yn hyderus am destunau cyfarwydd ac yn dilyn cyfarwyddiadau sylfaenol yn Gymraeg yn dda iawn.  Gall llawer o ddisgyblion ddilyn patrymau brawddeg sylfaenol i ysgrifennu'n briodol ar destunau a themâu cyfarwydd.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad amdanyn nhw eu hunain ac ystod eang o destunau cyfarwydd gyda chywirdeb ac ynganiad da. Gallant adrodd barddoniaeth, y maent wedi'i pherfformio yn Eisteddfod yr ysgol, gyda chywirdeb a goslef dda.  Mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn briodol i'w hoedran ac yn ysgrifennu i safon dda mewn ystod gyfyngedig o arddulliau a chyd-destunau.

Mae athrawon bellach yn cynllunio'n dda ar gyfer datblygu medrau Cymraeg ar draws yr ysgol, sy'n sicrhau dilyniant da rhwng pob dosbarth.  Fodd bynnag, nid yw'r ysgol bob amser yn manteisio ddigon ar y cyfleoedd a'r arbenigedd o fewn y ddarpariaeth yn y ffrwd Gymraeg i ymestyn disgyblion sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith.

Mae athrawon wedi cael hyfforddiant priodol ar gyfer datblygu'r Gymraeg fel mamiaith ar draws yr ysgol.  Erbyn hyn, maent yn defnyddio'r cynllun gwaith Cymraeg newydd i gynllunio *genres* ysgrifennu addas ar draws yr ysgol.  Fodd bynnag, nid yw'r strategaeth newydd ar gyfer datblygu ysgrifennu disgyblion wedi cael ei rhoi ar waith yn effeithiol mewn llawer o ddosbarthiadau.  Yn y gwersi hyn sy'n llai effeithiol, nid yw gweithgareddau'n cysylltu â'r tasgau ysgrifennu estynedig ac nid ydynt yn herio disgyblion yn ddigonol.  Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu trwy feysydd eraill y cwricwlwm.

Nid yw marcio athrawon bob amser yn canolbwyntio ddigon ar wella atalnodi a sillafu disgyblion, ac nid yw'n nodi'r hyn y maent yn ei wneud yn dda na sut gallant wella'u gwaith.  O ganlyniad, ni chaiff disgyblion gyfleoedd digonol i fod yn rhan o'u dysgu eu hunain a gwella safonau.

**Argymhelliad 3:  Gwella cyflawniadau disgyblion gallu uwch ar ddiwedd y ddau gyfnod**

Cynnydd cyfyngedig o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol sy'n amlinellu'n glir sut mae'r ysgol yn nodi a bodloni anghenion disgyblion mwy abl a thalentog. Mae arweinwyr yr ysgol wedi gweithio'n dda ag ysgolion lleol i ddarparu 'diwrnodau her' i ddisgyblion mwy abl ymestyn eu medrau ysgrifennu, rhifedd a gwyddoniaeth. Mae athrawon yn nodi disgyblion ar draws yr ysgol sy'n rhagori mewn llythrennedd a rhifedd ac yn olrhain cynnydd yn briodol.

Mae'r ysgol wedi nodi grwpiau o ddysgwyr ym Mlynyddoedd 5 a 6 sydd â'r potensial i gyflawni ar y lefelau uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Mae athrawon yn darparu gweithgareddau addas mewn grwpiau bach ar gyfer y disgyblion hyn er mwyn datblygu eu medrau ysgrifennu.

Fodd bynnag, nid yw cynllunio athrawon yn ddigon eglur i ddarparu ar gyfer anghenion disgyblion mwy abl a thalentog ar draws yr ysgol. Er enghraifft, caiff y rhan fwyaf o dasgau eu gwahaniaethu yn ôl deilliant ac mae gormod o ddibyniaeth ar ddefnyddio meini prawf llwyddiant graddedig. Nid yw hyn yn cynnig digon o her i ddisgyblion uwch eu gallu.

**Argymhelliad 4: Sicrhau gwell cysondeb yn ansawdd yr addysgu ac asesu ar draws yr ysgol**

Cynnydd cyfyngedig o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad.

Mae gormod o anghysondeb yn ansawdd yr addysgu a lefel yr her ar gyfer disgyblion. Mewn rhai dosbarthiadau, caiff disgyblion ystod eang o gyfleoedd dysgu a lefel briodol o her. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, nid yw athrawon yn ennyn diddordeb disgyblion yn ddigon effeithiol yn y gweithgaredd, ac mae ganddynt ddisgwyliadau isel.

Mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, mae athrawon yn darparu tasgau sy'n sicrhau bod disgyblion o bob gallu yn gwneud cynnydd da yn unol â'u gallu. Fodd bynnag, yn rhy aml, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2, mae athrawon yn derbyn gwaith sydd wedi'i gyflwyno'n wael ac nid yw o safon briodol.

Mae mwyafrif yr athrawon yn arfarnu eu haddysgu eu hunain ac yn nodi llwyddiannau a meysydd i'w gwella sy'n llywio eu cynllunio yn y dyfodol yn briodol. Fodd bynnag, mae hyn yn anghyson ar draws yr ysgol ac mae'n rhy ddisgrifiadol yn y mwyafrif o achosion. Nid oes digon o sylwadau am yr effaith ar gynnydd disgyblion.

Mae athrawon bellach yn defnyddio rhaglenni cyhoeddedig amrywiol i gyflwyno'r cwricwlwm, yn enwedig ar gyfer datblygu llythrennedd, ond nid yw'r rhain wedi cael eu hymgorffori'n ddigon llawn i gael effaith sylweddol ar ddeilliannau disgyblion. O ganlyniad, mae llawer o athrawon yn gwneud gormod o ddefnydd o daflenni gwaith amhriodol a gweithgareddau ysgrifennu lefel isel.

Mae marcio bron ym mhob dosbarth yn dilyn dull cyson ac mae athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig i ddisgyblion. Fodd bynnag, mae ansawdd yr adborth hwn yn amrywiol ac ni chaiff disgyblion ddigon o gyfleoedd i ymateb i farcio er mwyn addasu, mireinio neu wella'u gwaith. Mae'r ysgol yn datblygu dulliau cadarn i ddisgyblion asesu eu dysgu eu hunain a gwaith disgyblion eraill, ond mae'n rhy gynnar i weld yr effaith ar safonau.

Gall staff weld ystod eang o ddata i asesu cyflawniadau a chynnydd disgyblion. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon da, er enghraifft trwy flaenoriaethu camau gweithredu a mentrau i sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni ei botensial. Nid oes system olrhain ysgol gyfan ar waith, ac mae hyn yn atal athrawon rhag gosod targedau heriol ar gyfer eu disgyblion.

**Argymhelliad 5: Datblygu rôl y llywodraethwyr ymhellach i herio'r ysgol ynghylch ei pherfformiad**

Cynnydd cyfyngedig o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad.

Mae'r corff llywodraethol yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae ganddo strwythur clir o gyfrifoldebau dosbarthedig. Mae'n cyflawni ei ddyletswyddau statudol yn briodol.

Caiff llywodraethwyr yr ysgol wybodaeth fanwl am yr ysgol, gan gynnwys data perfformiad ac adroddiadau ar weithgareddau monitro, gan arweinwyr yr ysgol a swyddogion yr awdurdod lleol. Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o berfformiad yr ysgol dros gyfnod, gan gynnwys ar gyfer gwneud cymariaethau â pherfformiad ysgolion tebyg. Fodd bynnag, ychydig iawn o lywodraethwyr sy'n cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau hunanarfarnu, fel teithiau dysgu, i gynyddu eu dealltwriaeth ac arfarnu darpariaeth a safonau.

Yn ddiweddar, mae'r llywodraethwyr wedi creu rhaglen waith flynyddol fanwl sy'n cynnwys monitro ac arfarnu cynlluniau gwella'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r rhaglen wedi cael amser i gael effaith ar wella'r ysgol. Nid yw llywodraethwyr yn herio arweinwyr yr ysgol yn ddigon trylwyr o hyd ar safonau dysgu ac addysgu i gael effaith ystyrlon ar wella'r ysgol.

**Argymhelliad 6: Cryfhau'r cyswllt rhwng hunanarfarnu a chynllun gwella'r ysgol**

Cynnydd boddhaol o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad.

Mae gan y pennaeth a secondiwyd yn ddiweddar weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, a gyda chefnogaeth y dirprwy bennaeth, mae hi wedi rhoi proses hunanarfarnu gynhwysfawr ar waith yn ddiweddar. Mae'n ystyried tystiolaeth uniongyrchol o ystod o ffynonellau, ac mae'n cynnwys barn staff a disgyblion. Ar sail y dystiolaeth hon, mae'r broses hunanarfarnu yn nodi blaenoriaethau perthnasol ar gyfer gwella, gyda ffocws clir ar wella addysgu a chodi safonau.

Mae adroddiad hunanarfarnu presennol yr ysgol yn ddogfen waith addysgiadol a defnyddiol. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn amlinellu camau gweithredu clir ar gyfer y blaenoriaethau hyn ac mae'n cynnwys amserlen ar gyfer monitro ac arfarnu cynnydd.

Mae gweithdrefnau monitro hyd yn hyn yn cynnwys craffu ar waith disgyblion, cyfarfodydd cynnydd disgyblion ac arsylwadau gwersi. Mae'r uwch dîm rheoli yn ymgymryd â rolau monitro priodol yn y broses hon. Fodd bynnag, nid yw eu cyfraniad at arweinyddiaeth strategol yr ysgol wedi cael ei ddatblygu'n llawn eto.

Mae adroddiadau monitro diweddar yn nodi cryfderau a diffygion yn effeithiol, yn enwedig mewn addysgu. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i nodi beth fydd effaith yr adroddiadau hyn ar arfer yn yr ystafell ddosbarth ac ar safonau a deilliannau disgyblion.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ar y cynnydd hwn, dylai'r ysgol barhau i fynd i'r afael â'r argymhellion a nodwyd yn yr arolygiad craidd yn 2014.